# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-04-08)

**Dyddiad: 5 Mawrth 2008**
**Amser: 9.00am - 9.32am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Chris Reading, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### Eraill yn Bresennol

Denise Rogers - Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood a Lynne Neagle.

### 2: Cytuno ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad nesaf i gam-drin domestig
### Papur: CC(3)-04-08(p.1)

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y cylch gorchwyl, rhestr ymgynghori a thystion posibl. 2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl arfaethedig. Cododd y Pwyllgor faterion ychwanegol a gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc gynnwys y rhain yn y cylch gorchwyl ynghyd â'r materion i'w trafod. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol mewn cyd-destun domestig. Ymateb sectorau gwahanol i gam-drin domestig, dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â cham-drin domestig ac unrhyw wrthdaro posibl rhwng nodau ac amcanion ffynonellau ariannu gwahanol a thystiolaeth ystadegol graddfeydd a natur cam-drin domestig.

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Clerc i anfon e-bost at yr aelodau yn cynnwys y rhestr tystion a'r cylch gorchwyl diwygiedig, i gael eu sylwadau.

### 3: Blaenraglen waith ar gyfer tymor yr haf
### Papur: CC(3)-04-08 (p.2)

3.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur a oedd yn rhoi manylion am y flaenraglen waith. **Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Dai i roi tystiolaeth i ymchwiliad y pwyllgor i gam-drin domestig.
Cytunodd y pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft mewn sesiwn breifat yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn toriad y Pasg.